OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2004 Rhif 1012 (Cy.109)

BWYD, CYMRU

Rheoliadau Bwyd at Ddefnydd Maethol Neilltuol (Ychwanegu Sylweddau at Ddibenion Maethol Penodol) (Cymru) (Diwygio) 2004

Wedi'u gwneud - -	*31 Mawrth 2004*
Yn dod i rym - -	*1 Ebrill 2004*

Drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adrannau 16(1)(f), 17(1), 26(3) a 48(1) o Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990(**1**) ac a freinir ynddo bellach(**2**), mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, ac yntau wedi parchu, yn unol ag adran 48(4A) o'r Ddeddf honno, gyngor perthnasol a roddwyd gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd, ac ar ôl ymgynghori fel sy'n ofynnol gan Erthygl 9 o Reoliad (EC) Rhif 178/2002 Senedd Ewrop a'r Cyngor (**3**) sy'n pennu egwyddorion cyffredinol a gofynion cyfraith fwyd, yn sefydlu Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewrop ac yn gosod gweithdrefnau ar gyfer materion sy'n ymwneud â diogelwch bwyd, ac yn unol ag adran 48(4) a (4B) o'r Ddedddf honno, yn gwneud y Rheoliadau canlynol:

Enwi, cychwyn a dehongli

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Bwyd at Ddefnydd Maethol Neilltuol (Ychwanegu Sylweddau at Ddibenion Maethol Penodol) (Cymru) (Diwygio) 2004.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn dod i rym ar 1 Ebrill 2004.

(3) Yn y Rheoliadau hyn ystyr "y prif Reoliadau" "the principal Regulations" yw Rheoliadau Bwyd at Ddefnydd Maethol Neilltuol (Ychwanegu Sylweddau at Ddibenion Maethol Penodol) (Cymru) 2002(**4**).

Diwygio'r prif Reoliadau

2. Caiff y prif Reoliadau eu diwygio yn unol â rheoliadau 3 i 7.

(**1**) 1990 p. 16.
(**2**) Trosglwyddwyd Swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol i'r graddau y maent yn arferadwy mewn perthynas â Chymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) fel y'i darllenir ynghyd ag adran 40(3) o Ddeddf 1999.
(**3**) OJ Rhif L31, 1.2.2002, t.1.
(**4**) O.S. 2002/2939 (Cy.280).

3. Yn rheoliad 2(1) (dehongli), yn y diffiniad o "Cyfarwyddeb 2001/15" mewnosoder ar y diwedd y geiriau ", fel y'i diwygiwyd gan Gyfarwyddeb y Comisiwn 2004/5/EC(**5**) ac fel y'i darllenir gyda Chyfarwyddeb y Comisiwn 2004/6/EC(**6**) yn rhanddirymu Cyfarwyddeb 2001/15/EC er mwyn gohirio cymhwyso'r gwaharddiad ar fasnachu i gynhyrchion penodol".

4. Yn rheoliad 3 (cyfyngiadau ar werthu) —

(a) yn lle paragraff (1) rhodder y paragraff canlynol —

"(1) Yn ddarostyngedig i baragraff (5), ni chaiff neb werthu unrhyw fwyd DMN dynodedig, sef bwyd yr ychwanegwyd ato at ddiben maethol penodol sylwedd sy'n dod o fewn un o'r categorïau a grybwyllir ym mharagraff (2) —

(a) onid yw'r sylwedd hwnnw'n cael ei restru o dan y categori hwnnw —

(i) yn achos unrhyw fwyd at ddibenion meddygol arbennig, yn Atodlen 1 neu 2; a

(ii) mewn unrhyw achos arall, yn Atodlen 1;

(b) onid yw'r sylwedd hwnnw'n bodloni'r meini prawf perthnasol sy'n ymwneud â phurdeb ac y cyfeirir atynt ym mharagraff (3); a

(c) yn achos sylwedd a restrir yn Atodlen 2, oni fodlonir yr amodau ar ei ddefnyddio (os o gwbl) a nodir yn yr Atodlen honno sy'n ymwneud â'r sylwedd hwnnw"; a

(b) mewnosoder ar ddiwedd y paragraff canlynol —

"(5) Ni fydd y cyfyngiadau ym mharagraff (1) yn gymwys nes 1 Ionawr 2007 yn achos sylwedd sy'n dod oddi mewn i un o'r categorïau a grybwyllir ym mharagraff (2) ac a restrir o dan y categori hwnnw yn Atodlen 3—

(a) os nad yw Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewrop wedi rhoi barn anffafriol mewn cysylltiad â defnyddio'r sylwedd hwnnw wrth weithgynhyrchu unrhyw fwyd DMN dynodedig; a

(b) os defnyddiwyd y sylwedd hwnnw wrth weithgynhyrchu bwyd at ddefnydd maethol neilltuol oedd ar werth yn y Gymuned Ewropeaidd ar 11 Chwefror 2004.".

5. Yn Atodlen 1 (sylweddau y gellir eu hychwanegu at ddibenion maethol penodol mewn bwydydd DMN dynodedig) —

(a) mewnosoder yng Nghategori 2 (Mwynau) o dan y pennawd "CALCIUM" ar ôl y cofnod "— oxide", y cofnod "— sulphate"; a

(b) mewnosoder yng Nghategori 4 (Carnitin a thawrin) ar ôl y cofnod "L-carnitine hydrochloride" y cofnod "L-carnitin-L-tartrate".

6. Yn lle Atodlen 2 (sylweddau ychwanegol y gellir eu hychwanegu at ddibenion maethol penodol mewn bwydydd at ddibenion meddygol arbennig) rhodder cynnwys Atodlen 1 i'r Rheoliadau hyn.

7. Ar ôl Atodlen 2 mewnosoder fel Atodlen 3 gynnwys Atodlen 2 i'r Rheoliadau hyn.

(**5**) OJ Rhif L14, 21.1.2004, t.19.
(**6**) OJ Rhif L15, 22.1.2004, t.31.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**7**) 31 Mawrth 2004

D. Elis-Thomas
Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

(**7**) 1998 p.38.